**Arweiniad ar gyfer Arholwyr Mewnol ac Allanol ac**
**ar gyfer Cynullwyr a Chadeiryddion Byrddau Arholi Graddau Ymchwil**
**(MbyRes, MPhil, PhD, Doethuriaethau Proffesiynol)**

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r rheoliadau a'r codau ymarfer canlynol:

- Rheoliadau Rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig (Rheoliad 03)
- Cod Ymarfer Sicrhau Ansawdd a Safonau Academaidd Rhaglenni Ymchwil (Cod 03).
- Cod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05)

1. <u>Trefniadau Gweinyddol</u>

Pennaeth yr ysgol fydd yn gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol wedi rhoi'r trefniadau gweinyddol cywir yn eu lle ar gyfer cyflwyno ac arholi traethodau ymchwil. Cadeirydd pob Bwrdd Arholi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y traethawd ymchwil yn cael ei arholi, a'r canlyniadau'n cael eu hadrodd, yn unol â rheoliadau a threfniadau'r brifysgol.

Rhaid i Arholwyr Mewnol ac Allanol gyflwyno eu hadroddiadau rhagarweiniol cyn dyddiad yr arholiad llafar. Disgwylir i Fyrddau Arholi gwblhau'r gwaith o arholi'r ymgeisydd a chyflwyno eu hadroddiadau terfynol cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosib ac fel rheol 3 mis fan bellaf ar ôl derbyn y traethawd. Os nad yw'r arholwyr yn gallu cwrdd â'r terfynau amser hyn, rhaid iddynt hysbysu Cynullydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd o'r rhesymau dros yr oedi. Mae'r brifysgol, fodd bynnag yn awyddus i sicrhau nad yw ymgeiswyr yn wynebu oedi mawr yn ystod y broses arholi.

2. <u>Dyletswyddau'r arholwyr</u>

Rhaid i'r arholwyr farnu'r traethawd ar sail safon a rhychwant y gwaith y mae'n rhesymol ei ddisgwyl gan fyfyriwr ymchwil ôl-raddedig ar ôl cyfnod astudio penodol (fel y'i diffinnir gan Reoliad 03, ac yn enwedig ym mharagraff 11 neu baragraff 14).

Disgwylir i arholwyr gynnal arholiad llafar ar ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno traethawd ymchwil ar gyfer gradd ymchwil. Os ydyw traethawd a ailgyflwynwyd yn cael ei ailarholi, gellir hepgor y gofyniad i gynnal arholiad llafar yn ôl disgresiwn y Bwrdd Arholi, (fel y diffiniwyd gan baragraff 54 neu baragraff 60 Rheoliad 03).

3. Meini Prawf Dyfarnu

Diffinnir meini prawf manwl pob math o radd ymchwil yn Rheoliad 03 fel a ganlyn:

***Gradd Meistr trwy Ymchwil ac MPhil***

9. Dyfernir graddau Meistr trwy Ymchwil ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus. Fel rheol rhaid i'r ymchwil fod yn (a) werthusiad a dadansoddiad sylweddol o gorff o wybodaeth ac/neu (b) project ymchwil gwreiddiol.
10. Dyfernir Gradd Meistr mewn Athroniaeth (MPhil) ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus. Fel rheol rhaid i'r ymchwil fod yn (a) werthusiad a dadansoddiad beirniadol o gorff o wybodaeth ac/neu (b) cyfraniad gwreiddiol i wybodaeth.
11. Rhaid i'r myfyrwyr ddangos, mewn perthynas â maes astudiaeth neu faes ymarfer proffesiynol penodol:
    i. dealltwriaeth systematig o wybodaeth, ac ymwybyddiaeth feirniadol o broblemau cyfredol ac/neu syniadau newydd, y mae llawer ohonynt ar flaen eu disgyblaeth academaidd, eu maes astudiaeth neu eu maes ymarfer proffesiynol, neu'n cael eu llywio ganddynt
    ii. dealltwriaeth gynhwysfawr o dechnegau y gellir eu cymhwyso i'w hymchwil neu eu hysgolheictod uwch eu hunain
    iii. gwreiddioldeb wrth gymhwyso gwybodaeth, ynghyd â dealltwriaeth ymarferol o sut mae technegau ymchwil profedig yn cael eu defnyddio i greu a dehongli gwybodaeth yn y ddisgyblaeth
    iv. dealltwriaeth gysyniadol sy'n galluogi'r myfyriwr:
        - i werthuso'n feirniadol ymchwil gyfredol ac ysgolheictod uwch yn y ddisgyblaeth
        - i werthuso methodolegau a datblygu dulliau o'u beirniadu, a lle bo'n briodol, i gynnig damcaniaethau newydd.

***Doethuriaethau Proffesiynol a PhD***

12. Dyfernir Doethuriaethau Proffesiynol ar ôl cwblhau cwrs hyfforddedig cymeradwy'n llwyddiannus a chwblhau astudiaethau ac ymchwil pellach yn llwyddiannus.
13. Dyfernir Gradd Doethur mewnYmchwil (PhD) ar ôl cwblhau astudiaethau ac ymchwil yn llwyddiannus.
14. Dyfernir Doethuriaethau Proffesiynol a graddau PhD i fyfyrwyr sy'n dangos y canlynol:
    i. Y gallu i greu a dadansoddi gwybodaeth newydd trwy ymchwil gwreiddiol neu ysgolheictod uwch arall. Rhaid i'r gwaith fod ar flaen y ddisgyblaeth, o ansawdd sy'n bodloni adolygiad gan gydweithwyr, a rhaid ei fod yn ddigon da i'w gyhoeddi.
    ii. caffael a deall corff sylweddol o wybodaeth sydd ar flaen disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol
    iii. y gallu i gysyniadu, cynllunio a gweithredu project ymchwil ac addasu cynllun y project i ymateb i broblemau annisgwyl
    iv. dealltwriaeth fanwl o dechnegau y gellir eu cymhwyso i ymchwil ac ymholiadau academaidd uwch.
15. Gall myfyrwyr sy'n dilyn rhaglen ymchwil ôl-radd mewn Iaith, Astudiaethau Diwylliannol neu'r Celfyddydau Creadigol neu Berfformio fodloni hefyd ofynion dyfarnu gradd ymchwil ôl-raddedig trwy ddangos, trwy eu hymchwil, y gallu i gwblhau gwaith a all gynnwys: cyfieithiad, fersiwn neu addasiad gwreiddiol, arteffact, sgôr, portffolio yn cynnwys gwaith gwreiddiol, perfformiad neu arddangosfa.

4. Cyflwyno'r Traethawd Ymchwil

Rhaid cyflwyno traethawd yn ôl y diffiniad yn Rheoliad 03. Mae Rheoliad 03 yn diffinio'r disgwyliadau o ran cynnwys a diwyg y traethawd.

5. Arholi’r Traethawd Ymchwil

Diffinnir y trefniadau ar gyfer arholi traethodau ymchwil yn Rheoliad 03 fel a ganlyn:

73. Bydd Bwrdd Arholi'n cynnwys y canlynol:

- cadeirydd
- arholwr mewnol (ac eithrio pan fydd y myfyriwr yn aelod staff)
- arholwr allanol
- ail arholwr allanol (dim ond pan fydd y myfyriwr yn aelod staff)

Diffinnir meini prawf dewis arholwyr yng Nghod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05)

74. Rhaid bod cadeirydd y Bwrdd Arholi’n aelod profiadol o staff academaidd yr ysgol, neu os yw’r amgylchiadau’n gwarantu hynny, ysgol arall yn y brifysgol. Gall aelod profiadol o staff mewn sefydliad cydweithredol gadeirio’r Bwrdd Arholi, yn amodol ar delerau cytundeb cydweithredol.

75. Ni chaniateir penodi goruchwyliwr(wyr) y myfyriwr yn gadeirydd neu’n arholwr allanol. Caiff y goruchwyliwr fod yn bresennol yn yr arholiad llafar dim ond:

i. os bydd y myfyriwr yn gwneud cais i’r goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y cadeirydd yn cydsynio â’r cais neu
ii. os bydd y cadeirydd, ar ôl ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd yn unol â pharagraff 78 ac/neu baragraff 79, yn mynnu bod y goruchwyliwr yn bresennol neu
iii. os bydd yr arholwr mewnol neu allanol yn gwneud cais i’r goruchwyliwr fod yn bresennol a bod y cadeirydd a’r myfyriwr yn cydsynio â’r cais hwn.

Ni chaiff goruchwyliwr sy’n bresennol mewn arholiad llafar siarad ac eithrio pan fydd y cadeirydd yn ei wahodd. Er mwyn rhoi cyfle i’r myfyriwr ddisgrifio amgylchiadau lliniarol, gall y cadeirydd ofyn i’r goruchwyliwr fynd allan yn ystod rhannau o’r arholiad.

76. Os nad yw’n bosib penodi arholwr mewnol o’r tu fewn i’r ysgol, gellir penodi arholwr mewnol o ysgol arall.

77. Os nad yw’n bosib penodi arholwr mewnol o ysgol arall, gall cadeirydd y Grŵp Tasg Sicrhau Ansawdd a Dilysu (neu ei enwebai), ar argymhelliad pennaeth yr ysgol, benodi arholwr allanol ychwanegol, fel y’i disgrifir yng Nghod Ymarfer Arholwyr Allanol: Graddau Ymchwil (Cod 05).

78. Gall myfyriwr roi gwybod i gadeirydd y Bwrdd Arholi os oes unrhyw amgylchiadau lliniarol sy’n berthnasol i’w b/phroject ymchwil, i’r traethawd ymchwil neu arholi'r traethawd. Rhaid hysbysu’r cadeirydd yn ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod i gyflwyno’r traethawd. Yn ôl doethineb y Cadeirydd, gall y myfyriwr gyflwyno manylion yr amgylchiadau lliniarol yn ystod yr arholiad llafar.

79. Gall goruchwyliwr roi gwybod i gadeirydd y Bwrdd Arholi os oes unrhyw bryderon sy’n berthnasol i broject ymchwil y myfyriwr, i’r traethawd neu arholi'r traethawd. Rhaid hysbysu’r Cadeirydd a’r myfyriwr yn ysgrifenedig mor fuan â phosib ar ôl cyflwyno’r traethawd ymchwil, i ganiatáu amser i’r myfyriwr baratoi ymateb. Rhaid i’r cadeirydd sicrhau bod y myfyriwr yn cael digon o amser i ymateb i unrhyw bryderon a godir gan y goruchwyliwr.

6. Yr Arholiad Llafar

6.1 Mae'r arholiad llafar yn rhan annatod o broses arholi gradd ymchwil a gofynnir i arholwyr fod yn ofalus iawn i osgoi rhoi'r argraff ar unrhyw adeg mai mater o ffurfioldeb yn unig yw'r arholiad llafar. Diffinnir pwrpas a threfniadau arholiadau llafar yn Rheoliad 03 fel a ganlyn:

> 80. Pwrpas yr arholiad llafar yw:
>
> - caniatáu i'r arholwyr gael sicrwydd mai gwaith y myfyriwr ei hun yw'r traethawd.
> - rhoi cyfle i'r myfyriwr amddiffyn y traethawd ymchwil ac egluro unrhyw faterion a godir gan yr arholwyr
> - caniatáu i'r arholwyr asesu gwybodaeth gyffredinol y myfyriwr am y maes astudio penodol.
>
> 81. Fel rheol cynhelir yr arholiad llafar yn y brifysgol, neu, os yw pawb yn gytûn, trwy gynhadledd fideo, a gynhelir fel arfer rhwng safle yn y brifysgol ac un safle arall. Os nad yw'r myfyriwr yn bresennol ar safle'r brifysgol, dylai aelodau'r Bwrdd Arholi fod gyda'i gilydd ar safle'r brifysgol. Os nad yw'r arholwr allanol yn bresennol ar safle'r brifysgol, dylai aelodau eraill y Bwrdd Arholi ynghyd â'r myfyriwr fod ar safle'r brifysgol.
>
> 82. Gellir cynnal yr arholiad llafar mewn man arall dim ond os yw cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd yn cytuno. Gellir cynnal yr arholiad llafar mewn sefydliad partner os yw'r rhaglen ymchwil ôl-raddedig yn rhan o gytundeb cydweithredol.
>
> 83. Fel rheol rhaid cynnal yr arholiad llafar o fewn 3 mis i'r dyddiad y cyflwynwyd y traethawd. Gall cadeirydd y Bwrdd Arholi ohirio arholiad llafar os oes amgylchiadau lliniarol sy'n atal y myfyriwr rhag bod yn bresennol. Ni ellir gohirio'r arholiad llafar am fwy na chwe mis ar ôl y dyddiad y cyflwynwyd y traethawd ymchwil.

6.2 Yn yr arholiad llafar dylid annog ymgeiswyr a gwneud iddynt deimlo'n gartrefol fel y gallant arddangos eu gwybodaeth a'u galluoedd i'r eithaf. Dylid cydnabod a thrafod cryfderau'r traethawd yn ogystal â'i wendidau. Yn gynnar yn yr arholiad, dylid rhoi cyfle i'r ymgeisydd i egluro'n union beth yw bwriad arfaethedig y traethawd a beth yn eu barn hwy yw ei arwyddocâd fel cyfraniad at wybodaeth. Os ymddengys bod gwahaniaeth mawr rhwng bwriadau'r ymgeisydd a chynnwys y traethawd dylid trafod y rhesymau dros hyn. Yn yr un modd dylid gofyn i ymgeiswyr egluro eu dewis o deitl os ymddengys nad yw'n cyfateb yn union â chynnwys y traethawd. Dylid rhoi cyfle i'r ymgeisydd hefyd i egluro unrhyw fethiant ymddangosiadol i ddefnyddio deunyddiau pwysig, boed y rhain yn rhai gwreiddiol neu eilaidd, neu unrhyw enghreifftiau o esgeuluso dulliau neu fethodolegau perthnasol.

6.3 Lle gwelir diffygion sylweddol mewn traethawd, dylid tynnu sylw'r ymgeisydd at yr holl enghreifftiau, neu sampl gynrychiadol os oes llawer ohonynt. Rhaid rhoi'r cyfle i'r ymgeisydd yn ystod yr arholiad llafar i egluro ac amddiffyn meysydd yr ystyrir eu bod yn ddiffygiol.

6.4 Mae'n bosib y bydd arholwyr yn anghytuno i raddau mwy neu lai yn eu gwerthusiad o'r gwaith. Mae'n hollbwysig felly bod yr arholwyr yn trafod gyda'i gilydd cyn yr arholiad llafar, fel os gwelir gwahaniaeth barn sylweddol, y gellir dyfeisio strategaeth i geisio datrys y gwahaniaethau hyn trwy ddulliau a gytunir (e.e. strwythur yr arholiad llafar). Er ei bod yn ddymunol bod yr arholwyr yn ceisio datrys eu gwahaniaethau, os na allant ddod i ben â gwneud hynny, bydd Cadeirydd y Bwrdd yn adrodd y ffaith hon i'r Gofrestrfa Academaidd, ac ni wneir unrhyw argymhelliad. Mewn amgylchiadau felly, penodir Arholwr Allanol ychwanegol i gyflafareddu, yn unol â'r manylion ym mharagraff 29 yng Nghod 05.

7. Arweiniad ar Lenwi Ffurflenni Adrodd Arholwyr.

7.1 Mae tair rhan i'r broses adrodd ar arholi gradd ymchwil. Darperir tair ffurflen ar gyfer yr arholwyr (mae fersiynau penodol ar gyfer pob math o radd ymchwil) Rhaid dychwelyd y ffurflenni i'r Gofrestrfa Academaidd gyda'r ffurflen Hysbysiad o Ymgeisyddiaeth.

Ffurflen 1: Defnyddir hon gan yr Arholwyr Mewnol ac Allanol i roi adroddiad rhagarweiniol ar y traethawd ymchwil. Dylai cadeirydd y Bwrdd Arholi drefnu i'r Arholwyr Mewnol ac Allanol ystyried cynnwys adroddiadau ei gilydd, fel rheol yn union cyn yr arholiad llafar. Dylai'r adroddiadau fod yn ddigon manwl i asesu ystod ac arwyddocâd y traethawd a gwerthfawrogi ei gryfderau a'i wendidau. Dylai'r adroddiadau, i'r graddau y mae hynny'n bosib, gael eu mynegi mewn ieithwedd y gall y rhai hynny nad ydynt yn arbenigwyr ym maes penodol y traethawd ei deall. Dylai'r sylwadau gwerthuso fod mor gyflawn â phosib a dylent nodi cryfderau yn ogystal â gwendidau, cyfyngiadau a phethau a adawyd allan.

Ffurflen 2: Defnyddir hon gan y Bwrdd Arholi i adrodd ar yr arholiad llafar ac i adrodd y canlyniad a argymhellwyd gan y Bwrdd Arholi. Dylid nodi'r canlyniad trwy dicio'r blwch (blychau) perthnasol. Rhaid i'r arholwyr a chadeirydd y bwrdd lofnodi a rhoi'r dyddiad ar y ffurflen. Os yw'r arholwyr yn anghytuno ar ganlyniad yr arholiad, dylid peidio â llofnodi "Crynodeb o Argymhelliad yr Arholwyr", ond yn lle hynny dylai'r cadeirydd hysbysu'r Cofrestrydd Academaidd, a fydd yn rhoi arweiniad pellach.

Ffurflen 3: Defnyddir hon gan yr Arholwr Allanol i adrodd ar y broses arholi gyffredinol. Gall ddychwelyd y ffurflen hon yn uniongyrchol i'r Gofrestrfa Academaidd mewn amlen ar wahân os dymuna.

***Dylai'r arholwyr nodi y caiff yr ymgeisydd gopi o'r adroddiadau hyn ar ôl yr arholiad llafar.***

8. Penderfyniadau'r Bwrdd Arholi

Diffinnir y penderfyniadau y gall Byrddau Arholi eu gwneud yn Rheoliad 03. Rhaid i fyrddau arholi ddewis Opsiwn A, B neu C.

Opsiwn A. Dyfarnu'r radd gan ddefnyddio Opsiwn A1, A2 neu A3

A1. Yn ddiamod
A2. Ar ôl cwblhau mân gywiriadau.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 4 wythnos i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Yn achos mân gywiriadau nid oes angen ail asesiad academaidd, er enghraifft, gwallau teipograffyddol neu ychydig o aildrefnu ar y deunydd. Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.
A3. Ar ôl cwblhau diwygiadau sylweddol.
Rhaid cwblhau'r rhain o fewn 6 mis (neu 4 mis yn achos traethodau Meistr trwy Ymchwil) i'r dyddiad y mae'r myfyriwr yn derbyn hysbysiad swyddogol o ganlyniad yr arholiad. Rhaid i'r arholwr allanol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

Opsiwn B. Cynnal arholiad arall (cyfeirio) gan ddefnyddio Opsiwn B1 neu B2
*Ni ddefnyddir Opsiwn B1 ar ôl arholi Traethawd Meistr trwy Ymchwil neu draethawd a ailgyflwynwyd.*

B1. Caniateir i'r myfyriwr ailgyflwyno'r traethawd, ar ôl talu ffi ailgyflwyno, o fewn 12 mis.
Gellir ailgyflwyno traethodau ymchwil ar gyfer graddau fel y rhestrir isod:
MPhil – ailgyflwyno ar gyfer MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil
DMin – ailgyflwyno ar gyfer DMin, MPhil neu Feistr yn y Weinidogaeth (MMinRes)
EdD– ailgyflwyno ar gyfer EdD, MPhil neu Feistr mewn Addysg (MEdRes)
DClinPsy – ailgyflwyno ar gyfer DClinPsy
PhD – ailgyflwyno ar gyfer PhD, MPhil neu Radd Meistr trwy Ymchwil
*Os dewisir Opsiwn B1, rhaid i'r Bwrdd Arholi nodi hefyd a oes angen arholiad viva voce ar ôl ailgyflwyno traethawd.*
*Os yw'r myfyriwr yn dewis peidio ag ailgyflwyno yna rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis un o'r opsiynau a ddiffinnir yn Adran C.*
B2. Rhaid i'r myfyriwr gael arholiad viva voce arall:
i. heb fod angen unrhyw gywiriadau i'r thesis
ii. â man gywiriadau i'w cwblhau o fewn 4 wythnos a chyn yr arholiad viva voce.

*Ar ôl yr arholiad hwn (neu os yw'r myfyriwr yn dewis peidio â dod), rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis opsiwn A, B neu C, ond ni ddefnyddir opsiwn B2 fel rheol.*

Opsiwn C. Penderfynu bod y myfyriwr wedi methu â chyrraedd y safon ofynnol.
*Yn achos y Radd Meistr trwy Ymchwil a'r DClinPsy rhaid i'r Bwrdd Arholi ddefnyddio opsiwn C2.*
*Yn achos yr holl raddau eraill, rhaid i'r Bwrdd Arholi ddewis Opsiwn C1 neu C2.*

C1. Dyfarnu cymhwyster amgen fel a ganlyn, gan ddewis opsiwn C1 –i neu C1 – ii:
MPhil – dyfarnu Gradd Meistr trwy Ymchwil mewn pwnc perthnasol
DMin - dyfarnu Meistr yn y Weinidogaeth (MMinRes)
EdD – dyfarnu Meistr mewn Addysg (MEdRes)
PhD – dyfarnu MPhil.
i. yn ddiamod
ii. â man gywiriadau i'w cwblhau o fewn 4 wythnos. Rhaid i'r arholwr mewnol wirio bod y cywiriadau wedi cael eu gwneud.

C2. Peidio â dyfarnu gradd.
*Dylai arholwyr ddewis yr opsiwn hwn dim ond ar gyfer y radd Meistr trwy Ymchwil, y DClinPsy neu pan arholir traethawd ymchwil a ailgyflwynwyd.*

Os oes rhaid cywiro traethawd ymchwil (fel y diffinnir ef yn adrannau A2, A3, B2ii neu C1ii) rhaid i'r ysgol anfon llythyr o fewn 10 diwrnod gweithio i'r arholiad llafar i roi gwybod i'r myfyriwr pryd y bydd angen cyflwyno'r traethawd wedi ei gywiro. Rhaid i'r ysgol hefyd ddarparu rhestr o'r cywiriadau a awgrymwyd gan yr arholwyr. Os oes angen ailgyflwyno traethawd (fel y'i diffinnir yn Adran B1) bydd y Gofrestrfa Academaidd yn anfon llythyr o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn penderfyniad y Bwrdd Arholi i roi gwybod i'r myfyriwr pryd y bydd angen cwblhau'r cywiriadau. Rhaid i'r ysgolion wneud yn siŵr bod

trefniadau yn eu lle i sicrhau bod cywiriadau wedi cael eu cwblhau cyn y dyddiadau cau. Os nad ailgyflwynir traethawd cyn y dyddiad cau, rhaid i'r ysgol roi gwybod i'r Gofrestrfa Academaidd a chyfeirio'r achos at gadeirydd y Bwrdd Arholi i weithredu arno, fel y diffinnir gan yr opsiynau sydd ar gael i'r Bwrdd Arholi.

9. Talu Ffioedd a Hawlio Treulio

Cyfrifoldeb y Gofrestrfa Academaidd yw talu ffioedd a threuliau i arholwyr allanol a dylid cyfeirio unrhyw ymholiad neu bryder ynghylch talu ffioedd/treuliau yn uniongyrchol at y Cofrestrydd Cynorthwyol (Sicrhau a Gwella Ansawdd).